Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Llandysiliogogo** a gynhaliwyd drwy fynychu o bell, ar nos Fawrth, 15fed o Fawrth 2022.

Minutes of **Llandysiliogogo Community Council** Meeting held remotely on Tuesday, 15th of March 2022.

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Aled Dafis (Cadeirydd), Cynghorydd Ann Harris (problemau technegol) Mary Davies, Morys Ioan, Heledd Dafis, Bleddyn Davies, Alun Evans a'r Cynghorydd Sir Gareth Lloyd

**PRESENT:** Councillor Aled Dafis (Chair), Councillors Ann Harris (technical difficulties), , Mary Davies, Morys Ioan, Heledd Dafis, Bleddyn Davies, Alun Evans and the County Councillor Gareth Lloyd.

**(7.30 – 9.10yh)**

**(7.30 – 9.10pm)**

**Datganiad Derbyn Swydd**
**Morys Ioan**

**Declaration of Acceptance of Office**
**Morys Ioan**

**115** **Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd Ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Gareth Evans

115 **Apologies**
Apologies were received from Councillor Gareth Evans.

**116** **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
122.02 Sioe Caerwedros - Cynghorydd Morys Ioan
122.08 CFFI Ceredigion -Cynghorydd Bleddyn Davies
122.09 CFFI Caerwedros – Aled Dafis, Morys Ioan a Bleddyn Davies
122.10 Ysgol Talgarreg – Cynghorydd Gareth Lloyd, Heledd Dafis a Mary Davies

116 **Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
122.02 Caerwedros Show – Councillor Morys Ioan
122.08 YFC Ceredigion -Councillor Bleddyn Davies
122.09 YFC Caerwedros – Councillors Aled Dafis, Morys Ioan and Bleddyn Davies
122.10 Talgarreg School – Councillors Gareth Lloyd, Heledd Dafis and Mary Davies

117 **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 15fed o Chwefror**
117.01 Cadarnhawyd Cofnodion cyfarfod 15fed o Chwefror yn gofnod cywir.

117 **Minutes of the Meeting held on 15th of February**
117.01 The Minutes of the meeting of the 15th of February were confirmed as a true record.

118 **Materion yn codi**
Dim yn codi.

118 **Matters arising**
No matters raised.

119 **Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Erydu yn Cwmtydu – wedi mynychu cyfarfod gyda AS Ben Lake ac aelodau o'r Cyngor Sir. Ar hyn o bryd mae rhwystrau dros dro mewn lle. Bydd y Cyngor Sir yn rhoi cynllun mewn lle er mwyn gwella'r sefyllfa. Bydd rhaid cael caniatad oddi wrth Ymddiriolaeth Cenedlaethol (perchnogwyr y tir) cyn symud ymlaen.
Arolwg Tai Lleol – wedi mynychu y cyfarfod diwethaf, mi oedd 15 o bobol yno dan arweiniad Keith Henson. Mi fydd y cyfarfod nesaf ar y 17eg o Fawrth am 6yh yn

119 **County Councillor's Report**
Erosion in Cwmtydu – attended a meeting with MP Ben Lake and members of the County Council. The County Council will put a plan in place to improve the situation. Permission will need to be obtained from National Trust (landowners) before proceeding.

Local Housing Survey – having attended the last meeting, there were 15 people there led by Keith Henson. The next meeting will be on the 17th of March at 6pm at Caerwedros Hall. It was

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Neuadd Caerwedros. CYTUNWYD mi fydd y Cynghorydd Sir Gareth Lloyd yn mynychu os yn bosib ar rhan y Cyngor Cymuned. | | AGREED that County Councillor Gareth Lloyd will attend, if possible, on behalf of the Community Council. |
| 120 | **Cyllid – CYTUNWYD i dalu'r canlynol;**<br>120.01 Cyflog Clerc Mawrth - £168.74<br>120.02 DIEvans - £250.00 (toiledau Cwmtydu) | 120 | **Finance** – It was AGREED to pay the following;<br>120.01 Clerk Salary March - £168.74<br>120.02 DIEvans - £250.00 (Cwmtydu Toilets) |
| | **Adolygiad o'r gyllideb- CYTUNWYD** | | **Review of the budget -AGREED** |
| **121** | **Ceisiadau Cynllunio**<br>121.01 A220060 - Brynawelon, Caerwedros, Llandysul. SA44 6BS – CYTUNWYD i anfon y sylwadau canlynol;<br><br>Nid oes gan y Cyngor Cymuned gwrthwynebiad i'r datblygiad uchod. Wrth ystyried y cais yma dymunwn i'r ymgeisydd ystyried cynnal asesiad ar y Iaith Cymraeg yn pentref Caerwedros fel a chyfeiriwyd o dan (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg." | 121 | Planning Applications<br>121.01 A220060 - Brynawelon, Caerwedros, Llandysul. SA44 6BS - it was AGREED to submit the following general comments;<br><br>The Community Council has no objection to the above development. The community council would like the applicant to consider carrying out an assessment of the Welsh Language in the village of Caerwedros as referred to under (TAN) 20: Planning and the Welsh Language." |
| **122** | **Ceisiadau am gymorth ariannol**<br><br>CYTUNWYD I gyfrannu at fudiadau lleol o fewn y Cymuned wrth symud ymlaen gyda ceisiadau am gymorth ariannol.<br><br>DERBYNIWYD ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth y canlynol a CHYTUNWYD I gyfrannu'r symiau yma;<br><br>122.01 Merched y Wawr- cangen y bryniau - £150.00<br>122.02 Sioe Caerwedros - £500.00<br>122.03 Cylch Meithrin Talgarreg - £450.00<br>122.04 Cylch Ti a Fi, Talgarreg – nid yw'r Cyngor Cymuned yn medru cyfrannu oherwydd cais I dalu cyflogau oedd hwn.<br>122.05 Pwll Nofio Aberaeron – CYTUNWYD i ddim cyfrannu.<br>122.06 Eisteddfod Cerddorol Llangollen - CYTUNWYD i ddim cyfrannu.<br>122.07 Elusen Arch Noa I Blant - CYTUNWYD i ddim cyfrannu.<br>122.08 CFFI Ceredigion - CYTUNWYD i ddim cyfrannu.<br>122.09 CFFI Caerwedros - £200.00<br>122.10 Ysgol Talgarreg - £500.00<br><br>CYTUNWYD wrth symud ymlaen fod y clerc yn ymchwilio i enghraifft polisi S137 a anfonwyd gan y Cynghorydd Aled Dafis a rhoi at ei gilydd polisi i'r Cyngor Cymuned ei ystyried yn y cyfarfod nesaf. | 122 | Request for financial assistance.<br><br>It was AGREED To contribute to local organisations within the Community in moving forward with applications for financial support.<br><br>Applications for financial support have been received from the following and it has been AGREED to contribute these amounts;<br><br>122.01 W. I Cangen y Bryniau -£150.00<br><br>122.02 Caerwedros Show - £500.00<br>122.03 Cylch Meithrin Talgarreg - £450.00<br>122.04 Cylch Ti a Fi, Talgarreg - the Community Cygnor is unable to contribute because this was an application to pay salaries.<br>122.05 Aberaeron Swimming Pool – it was AGREED not to contribute<br>122.06 Llangollen International Musical Festival – it was AGREED not to contribute.<br>122.07 Noah's Ark Children's Hospital Charity - – it was AGREED not to contribute.<br>122.08 Ceredigion YFC - – it was AGREED not to contribute.<br>122.09 YFC Caerwedros - £200.00<br>122.10 Talgarreg School - £500.00<br><br>It was AGREED moving forward that the clerk will look into the example of a S137 policy sent by Councillor Aled Dafis and put together a policy for the Community Council to consider at the next meeting. |

123 **Gohebiaeth**

123.01 Erydu yn Cwmtydu –diweddariad. Gweler Adorddiad y Cynghorydd Sir eitem 119

123.02 ETHOLIADAU LLEOL 2022 – ffenest ar gyfer cyflwyno ffurflenni enwebu rhwng Mawrth 21 a Ebrill y 5ed am 6yp. Clerc i dosbarthu'r papurau.

123.03 Arolwg Tai Lleol – cynrychiolydd. Mi fydd y Cynghorydd Gareth Lloyd yn gobeithio mynychu ar rhan y Cyngor Cymuned nos Iau ym 17eg o Fawrth am 6yh.

123.04 Apwyntio Archwilydd mewnol ac allanol ar gyfer Cyfrifon 2021/22 – - Mr Iorwerth Evans a Awdit Cymru

123.05 Diweddariad Toiledau Cwmtydu - CYTUNWYD i fwrw ymlaen â'r gwaith o drwsio to'r toiledau. Dyfynbris a ddarparwyd gan Aberarth Roofing Ltd, bydd y clerc yn cwblhau gwaith papur perthnasol ar gyfer y cwmni yswiriant.

123.06 Llyfryn Talgarreg - CYTUNWYD y gall y Cynghorydd Heledd Dafis gael pris am llyfryn du a gwyn a hefyd llyfryn lliw i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

123.07 Trefniadau Cyfarfodydd – cynnwys y mater ar agenda y cyfarfod nesaf ond gobeithiwn cwrdd mewn lleoliad yn dilyn etholiadau mis Mai.

123.08 Diweddariad Natwest – clerc wedi cysylltu gyda AS Ben Lake a gwneud cwyn gyda Natwest oherwydd diffyg cynnydd a chyfathrebu ar eu rhan.

123.09 Hyfforddiant Cynghorwyr – nodwyd

123.10 Cwricwlwm i Gymru - Ysgo Bro Sion Cwilt – CYTUNWYD i anfon y sylwadau canlynol;
Mae'r cyngor cymuned o'r farn y dylid addysgu disgyblion am y canlynol o dan y cwricwlwm newydd;
Amaeth - cynrychioli bwydydd yn lleol.
Cynefin - dysgu am le chi'n dod ac perthyn i'r ardal
Sut i creu bywoliaeth o'r ardal / economi lleol
Cyfrifoldeb cymuned – sut i dwyn dylwanwad, dysgu am cyfrifoldeb cynghorau cymuned ac chyngor sir.
Pwysigrwydd o gwaith gwirfoddolwyr o fewn ein cymuned.
Mentergarwch – sut i cynhyrchi swyddi lleol
Pwysigrwydd a dysgu ynghlyn ag arian
Clymi'r gwaith i gyd at ei gilydd, e.e dysgu pynciau megis gwyddoniaeth neu daearyddiaeth ynghlyn a'r ardal lleol.

123 Correspondence

123.01 Erosion in Cwmtydu – update. See County Councillors update, item 119

123.02 2022 LOCAL ELECTIONS – the nominations papers can be submitted between the 21st and the 5th of April at 5pm. Clerk to distribute papers.

123.03 Review of local housing – representative. Councillor Gareth Lloyd will attend the meeting on Thursday the 17th of March at 6pm on behalf of the Community Council.

123.04 To appoint an internal and external auditor for the 2021/22 Accounts - Mr Iorwerth Evans and Audit Wales

123.05 Cwmtydu Toilets Update - it was AGREED to proceed with the work to fix the toilets roof. Quote supplied by Aberarth Roofing Ltd, clerk will complete relevant paperwork for the insurance company.

123.06 Talgarreg Booklet – it was AGREED that Councillor Heledd Dafis can get a price for black and white booklets and also colour booklets to bring back to the council for consideration at the next meeting.

123.07 Meeting Arrangements - include the matter on the agenda for the next meeting but we hope to meet in a venue following the May elections.

123.08 Natwest Update - clerk contacted MP Ben Lake and made a complaint with Natwest due to a lack of progress and communication on their behalf.

123.09 One Voice Wales Training – noted.

123.10 Curriculum for Wales- Bro Sion Cwilt School - it was AGREED to send the following comments;
The community council believe that under the new curriculum pupils should be taught about the following;
Agriculture - representing foods locally.
Habitat - learn about where you come from and belong to the area
How to create a living from the area / local economy
Community responsibility – to learn about the responsibility of community and county councils.
The importance of the work of volunteers within our community.
Enterprise – how to produce local jobs
The importance and learning of money
All the work is tied together, e.g., learning subjects such as science or geography and the local area.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 123.11 Hawlio Threthi Annomestig Cenedlaethol – ni fydd y Cyngor Cymuned yn talu hwn ar gyfer Toiledau Cwmtydu, clerc wedi deryn hysbysiad oddi wrth y Cyngor Sir. | | 123.11 Non-Domestic Rates - the community council won't be paying NDR for the toilets in Cwmtydu, clerk received notice from the County Council. |
| 124 | **Materion i'w drafod ar agenda y cyfarfod nesaf**<br><br>Llyfryn Talgarreg<br>Trefniadau Cyfarfodydd<br>Wefan Cyngor Cymuned | 124 | Matters to discuss on next month's agenda<br><br>Information Leaflet for the Community<br>Arrangements for Meetings.<br>Community Council Website |
| 125 | **Trefniadau'r Cyfarfod Nesaf**<br>Cynhelir cyfarfod nesaf ar nos Fawrh y Mai 17eg, 2022 am 7.30yh lleoliad I'w cadarnhau. | 125 | Arrangement for next meeting<br>The next meeting will be held on Tuesday the 17th of May 2022 at 7.30pm location to be confirmed. |